# Trawma i'r Trwyn - Taflen Gyngor

**(I'w defnyddio ochr yn ochr â'r daflen Cyngor ar  anafiadau i'r pen)**

Rydych wedi cael eich trin yn yr Adran Achosion Brys (ED) neu'r Uned Mân Anafiadau (MIU) am  drwyn wedi torri (toriad trwynol).
Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor ar sut i ofalu am eich torasgwrn gartref.

## Diagnosio trwyn sydd wedi torri (toriad trwynol)

Gwneir diagnosis gan amlaf drwy wneud archwiliad clinigol. Esgyrn y trwyn yw'r esgyrn sy'n torri amlaf yn yr wyneb oherwydd eu bod mewn lle mor agored ac am nad oes ganddynt lawer o gefnogaeth strwythurol. Nid yw pelydrau-X fel arfer yn ddefnyddiol wrth wneud diagnosis o drwyn sydd wedi torri ond gallant ddod o hyd i esgyrn eraill sydd wedi torri.
Mae arwyddion sy'n awgrymu y gallai trwyn fod wedi torri ar ôl anaf yn cynnwys newid amlwg yn siâp y trwyn, siglo, synau crensian, chwydd, cleisio, trwyn yn gwaedu, a thrwyn wedi'i rwystro.
Gall chwyddo yn fuan ar ôl anaf ei gwneud hi'n anodd dweud a yw trwyn wedi torri neu peidio ac a yw'r esgyrn sydd wedi torri wedi symud allan o'u safle arferol. Os yw esgyrn y trwyn wedi torri ond heb symud allan o'u safle arferol, byddant yn gwella heb unrhyw newid i siâp cyffredinol y trwyn.

## Edrych ar ôl fy nhrwyn wedi torri

Bydd eich ymarferydd nyrsio neu feddyg yn yr Uned Mân Anafiadau neu'r Adran Achosion Brys yn archwilio'ch trwyn i wneud yn siŵr eich bod yn gallu anadlu drwy'r ddwy ffroen ac nad oes unrhyw chwydd llawn gwaed yn y rhaniad rhwng y ddwy ffroen, nad oes gwaedu'n dal i ddigwydd a sicrhau nad oes unrhyw hylif yn gollwng (hylif serebro-sbinol) o o amgylch yr ymennydd.

**Beth i'w wneud**

- Defnyddio pecynnau iâ a chymryd cyffuriau lladd poen yn rheolaidd.
- Os ydych chi wedi cael gwrthfiotigau, cwblhewch y cwrs llawn.
- Cadwch unrhyw glwyfau yn sych nes eu bod wedi gwella'n llwyr. Dylai unrhyw bwythau gael eu tynnu allan gan eich nyrs practis meddyg teulu ar ôl 5-7 diwrnod. Bydd angen i chi drefnu'r apwyntiad hwn gyda derbynnydd eich meddygfa.
- Osgoi ail anafu'r trwyn - dim chwaraeon cyswllt am 3 wythnos i alluogi'r trwyn i wella

Bydd unrhyw chwydd yn dechrau setlo ychydig ddyddiau ar ôl yr anaf. Mae'r esgyrn fel arfer yn sefydlogi o fewn 10 diwrnod a byddant yn gosod yn eu lle ac yn gwella mewn 2-3 wythnos. Efallai y bydd angen trefnu apwyntiad dilynol yn adran y Glust y Trwyn a'r Gwddf (ENT) (gweler yr adran ar apwyntiadau dilynol).

## Gwaedu o'r trwyn (epistaxis)

Mae gwaedu o'r trwyn yn gyffredin ar ôl anaf i'r trwyn. Os bydd gwaedu'n digwydd, dylech bwyso ymlaen a phinsio rhan feddal eich trwyn (gan gau'r ddwy ffroen) yn dynn rhwng eich bys a'ch bawd. Dylech wneud hyn **heb ollwng gafael am o leiaf 15 munud**. Poerwch unrhyw waed sy'n rhedeg i'r geg allan, gan y gall llyncu gwaed lidio'r stumog a gwneud i chi deimlo'n sâl. Os na fydd y gwaedu'n stopio, parhewch i ddal y trwyn a dychwelyd i'r Adran Achosion Brys / Uned Mân Anafiadau.

## Cymhlethdodau sy'n digwydd yn anaml yn sgil anaf i'r trwyn

- **Hylif serebro-sbinol (CSF) yn gollwng.**

Gall rhedlif dyfrllyd clir o un ffroen ar ôl anaf ddangos bod hylif (CSF) yn gollwng o amgylch yr ymennydd i'r trwyn. Bydd hyn yn eich rhoi mewn perygl o gael llid yr ymennydd. Dylech ddychwelyd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Grange (GUH) ac nid UMA os oes gennych y symptom hwn.

- **Hematoma Septal**

(chwydd llawn gwaed yn y rhaniad rhwng y ddwy ffroen)
Efallai fod gennych hematoma septaidd os byddwch yn teimlo fod gennych dymheredd, neu'n datblygu chwydd porffor yn y trwyn a allai fod yn boenus neu achosi i'r trwyn deimlo'n rhwystredig. Os yw nad yw hematoma septaidd yn cael ei drin, gall ddinistrio cartilag y trwyn gan achosi anffurfiad parhaol. Os oes gennych symptomau hematoma septaidd, dylech ddychwelyd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac nid i'r Uned Mân Anafiadau i gael ailasesiad o'ch trwyn.

## Apwyntiadau Dilynol

**3 - 4 diwrnod ar ôl yr anaf cychwynnol** i'ch trwyn, edrychwch yn y drych:

- Ydy'ch trwyn yn amlwg yn ystumiedig ac allan o'i le?
- Ydy hi'n anodd anadlu drwy'r naill ffroen neu'r llall heb gymorth?

**Os mai 'ydy' yw eich ateb** i'r naill gwestiwn uchod neu'r llall, efallai y byddwch yn elwa o gael llawdriniaeth i sythu'ch trwyn. Gelwir y driniaeth hon yn llawdriniad dan anesthesia, a bydd angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnoch.
**Dylech ffonio'r Ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018 (0800-1200, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc) i drefnu apwyntiad. Dylid trefnu apwyntiad ddim hwyrach na 6 diwrnod ar ôl eich anaf, a dylai unrhyw lawdriniaeth sydd ei hangen ddigwydd o fewn 2-3 wythnos wedi'r anaf.**

Os bydd llawdriniaeth yn cael ei gohirio, efallai na fydd yn bosibl ailosod y trwyn o dan anesthetig byr gan y bydd yr esgyrn wedi setlo'n llawn. Efallai y bydd angen triniaeth fwy wedyn i gyflawni'r un canlyniadau.

**Os ydych chi'n hapus â siâp eich trwyn ac nad ydych yn cael trafferth anadlu, yna ni fydd angen apwyntiad arnoch.**

**Os oes gennych unrhyw bryderon am eich anaf i'r pen**, cysylltwch â neu ewch i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac nid yr Uned Mân Anafiadau i gael asesiad pellach.

**Adran Achosion Brys/Uned Mân Anafiadau (MIU):**
**Ysbyty Brenhinol Gwent: 01633 234056**
**Ysbyty Neuadd Nevill: 01873 732073**
**Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) MIU: 01443 802353**
**Ysbyty Aneurin Bevan (YAB): 01495 363318**
**Ysbyty Athrofaol y Faenor: 01633 493287**